

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040

## Papur Esboniadol– Asesiadau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Rhagfyr 2019

## Pam ydym ni wedi cyhoeddi'r papurau esboniadol hyn?

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Drafft, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cael mwy o fanylion yn dangos sut mae'r FfDC wedi cael ei baratoi. I gynorthwyo rhanddeiliaid rydym wedi llunio casgliad o bapurau esboniadol er mwyn dangos y dystiolaeth sy'n ategu'r FfDC drafft. Mae'r papurau hyn yn cynnwys:

- Y Strategaeth Ofodol
- Asesiadau'r FfDC
- Hynt y FfDC yn y dyfodol
- Y Rhanbarthau
- Ardaloedd Gwledig
- Yr Angen am Dai
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Phorthladdoedd
- Casgliad o dystiolaeth

## Beth yw'r ddogfen hon?

### Asesiadau'r FfDC

Cafodd y papur esboniadol hwn ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr y FfDC drafft i ddeall y dull a roddwyd ar waith o safbwynt asesiadau'r FfDC drafft, a thynnir sylw at ba effeithiau sydd wedi'u hasesu a sut maent wedi llywio'r cynllun.



Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg. / This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron 2019
WG39565 ISBN Digidol: 978 1 83933 665 2


1. Er mwyn asesu'r FfDC dilynir y dull sefydledig a chydnabyddedig a ddefnyddir ar gyfer Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac arfarniadau Cynaliadwyedd ac mae wedi cael ei ehangu i integreiddio nifer o asesiadau effaith eraill. Bu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hanfodol yn y broses o ddatblygu'r dull gweithredu hwn a'r FfDC ac mae wedi llywio'r ffordd rydym yn cynnal yr asesiadau ac wedi cynnwys ac wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cefnogi'r cynllun. Drwy hyn sicrhawyd bod dull gweithredu cyfannol wedi'i fabwysiadu.

2. Aethpwyd ati mewn ffordd integredig i asesu'r FfDC. Mae'r dull integredig hwn yn ystyried y cyfraniad y gall y FfDC ei wneud i Nodau Llesiant Cymru ac yn ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy ar bob cam ac yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n gofynion statudol. Mae hefyd yn sicrhau dull cydweithredol ar faterion gwahanol, gan rannu gwybodaeth a chydnabod y cysylltiadau rhwng pynciau, ac osgoi dyblygu gwaith. Sicrheir bod effeithiau yn cael eu cydnabod ar y cam cynharaf ac ymgysylltir â rhanddeiliaid drwy gydol y broses hon er mwyn sicrhau bod y FfDC mor gynaliadwy â phosibl.

## Pa asesiadau a gynhaliwyd?

3. Yr asesiadau effaith statudol ac anstatudol canlynol:

### Asesiadau Integredig o'r Effeithiau



4. Mae gan yr asesiadau effaith fel y nodir uchod sy'n ofynnol ar gyfer y FfDC dempledi a dogfennau canllaw. Fel rhan o'r broses gynnar o gynllunio'r gwaith hwn, cydnabuwyd bod llawer o orgyffwrdd a dyblygu o fewn y prosesau hyn ac y byddai'n fuddiol pe baent yn cael eu dwyn ynghyd mewn ffordd a oedd yn cael ei llywio gan y Nodau Llesiant a'r Ffyrdd o Weithio. Defnyddiwyd y nodau llesiant i lywio'r adolygiad o'r dystiolaeth, nodi materion a strwythuro'r fframwaith asesu.

## Natur drawsbynciol effeithiau

5. Mae'r Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI), fel y'i nodir yn Atodiad A, yn amlinellu amcanion ACI penodol a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau ar gyfer y gwahanol bynciau effaith. Mae'n bwysig nodi bod natur drawsbynciol yr effeithiau hyn yn cael eu cydnabod ac y bydd natur yr asesiad yn sicrhau y bydd pynciau yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd yn y pen draw ac na fydd angen ailadrodd pynciau ar draws themâu.

## Sut y cafodd yr effeithiau ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth eu hasesu?

6. Mae Asesiadau Amgylcheddol Strategol, yn unol â'r Gyfarwyddeb[1] a'r Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol[2] wedi cael eu hymgorffori yn yr ACI o'r FfDC. Mae hyn yn sicrhau bod agweddau amgylcheddol yn cael eu hystyried yn effeithiol yn ystod y broses o lunio'r FfDC. Mae proses sefydledig o gynnal Asesiadau Amgylcheddol Strategol sydd wedi llywio'r ffordd y cynhelir yr ACI sy'n bodloni gofynion y Gyfarwyddeb.

7. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r ffordd y mae gwahanol elfennau o'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol wedi cael ei ymgorffori yn y fframwaith ACI. Nodir y fframwaith ACI a'i amcanion yn Atodiad A i'r papur hwn:

| Pwnc y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol | Prif Amcan ACI (Atodiad A) |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | 7, 9, 16 a 17 |
| Poblogaeth | 1, 2, 3, 4, 5, 10, 11, 12 a 15 |
| Iechyd Pobl | 1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 15, 16 a 17 |
| Ffawna | 7, 9 ac 16 |
| Fflora | 7, 9 ac 16 |
| Pridd | 7, 9, 13, 16 a 17 |
| Dŵr | 6, 7, 9, 16 a 17 |
| Aer | 6, 8 a 10 |
| Ffactorau Hinsoddol | 2, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 13, 16 a 17 |
| Asedau Perthnasol | 3, 4, 6, 9, 12, 13, 14, 16 a 17 |
| Treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol | 5, 13, 14 a 15 |
| Tirwedd | 7, 13, 14 a 17 |

[1] Cyfarwyddeb 2001/42/EC o Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd.
[2] Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) (OS 2004/1656(Cy/170)) ac yn Lloegr, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (OS I 2004/ 1633).

8. Ochr yn ochr â hyn, mae gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru), gan gynnwys y blaenoriaethau a nodwyd gan y Polisi Adnoddau Naturiol a'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'r gofynion a'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu cynnwys yn y fframwaith ACI a'r cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu'r FfDC.

9. Cydnabyddir sut mae cynnwys Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn y system gynllunio yn rhan annatod o elfennau hanfodol lleoedd cynaliadwy, drwy annog dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar nodi a sicrhau canlyniadau sy'n cynnig buddiannau lluosog o ran ecosystemau. Nod y FfDC yw ceisio mynd i'r afael â'r nodweddion allweddol hyn ac mae'r ACI yn nodi sut y caiff y rhain eu cyflawni.

10. Asesir effeithiau ar dirwedd drwy'r fframwaith ACI, yn enwedig amcanion ACI 7, 13 14 a 17 (Atodiad A).

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

11. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn asesu effeithiau'r FfDC ar safleoedd Natura 2000, sy'n cael eu diogelu drwy gyfraith yr UE neu eu trin fel y cyfryw drwy bolisi'r llywodraeth. Mae'r rhain yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), yn ogystal ag ACAau ac AGAau ymgeisiol a phosibl, a safleoedd Ramsar. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ceisio sicrhau na fydd yr FfDC yn arwain at effaith sylweddol debygol ar unrhyw safle Natura 2000.

12. Oherwydd natur dechnegol benodol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fe'i cynhaliwyd ar wahân i'r ACI ond caiff ei adlewyrchu a'i integreiddio ynddo.

## Sut y cafodd yr effeithiau ar y Gymraeg eu hasesu?

13. Mae'r ACI wedi asesu effeithiau tebygol y FfDC ar y Gymraeg, gan sicrhau y caiff cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg, hwyluso ei defnydd, diogelu ei dyfodol, a gweld yr iaith yn ffynnu eu hystyried a'u nodi lle y bo modd.

14. Mae'r fframwaith ACI, yn enwedig amcanion ACI 3, 4 a 5 (Atodiad A) a'r cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn sicrhau yr ymdrinnir â'r effeithiau ar y Gymraeg wrth i'r FfDC ddatblygu ac yn ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

## Sut y cafodd yr effaith ar grwpiau nodweddion gwarchodedig eu hasesu?

15. Mae'r ACI wedi ymgorffori asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau, gan sgrinio'r grwpiau nodweddion gwarchodedig – hil, oedran, beichiogrwydd a mamolaeth, anabledd a rhyw. Gwnaeth y gwaith sgrinio hwn lywio'r fframwaith ACI, amcanion (Atodiad A) 1, 2, 3, 4, 10, 11 a'r cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau er mwyn sicrhau y caiff y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldebau 2010 eu cyflawni ac y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol eu cydnabod.

16. Mae'r asesiad yn cynnwys hyrwyddo cyfle cyfartal a chydberthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach ac yn ceisio creu'r amodau sy'n helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth drwy fentrau cynllunio defnydd tir.

## Sut y cafodd yr effeithiau ar iechyd a lles eu hasesu?

17. Mae'r effaith ar iechyd a lles wedi cael ei seilio ar y fethodoleg eang, gyfranogol a chynhwysol fel y'i hanogwyd gan Uned Gymorth yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cymru yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyn wedi sicrhau bod penderfynyddion ehangach iechyd wedi cael eu bwydo i mewn i'r fframwaith ACI ac mae'n cwmpasu amcanion iechyd sy'n adlewyrchu dangosyddion Iechyd Cyhoeddus Cymru.

18. Mae'r cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau ar gyfer amcanion ACI (Atodiad A) 1, 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16 a 17 yn sicrhau yr ymdrinnir ag effeithiau ar iechyd, llesiant, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, anghydraddoldebau a phenderfynyddion ehangach iechyd wrth i'r FfDC gael ei asesu, gan gydnabod yr

effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gall y system gynllunio eu cael ar y meysydd hyn.

## Sut y cafodd yr effeithiau ar yr economi eu hasesu?

19. Mae'r Fframwaith ACI (Atodiad A) ac amcanion 1, 3, 4, 6 a 17, a'u cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau, yn sicrhau yr ymdrinnir ag effeithiau ar yr economi, gan gynnwys cynyddu cyfleoedd cyflogaeth, hyrwyddo cynhwysiant economaidd a thwf economaidd cynaliadwy, amrywiaeth a chystadleurwydd yn ogystal â chyfleoedd yn y trydydd sector wrth i'r FfDC gael ei ddatblygu. Bydd yr asesiad o'r FfDC yn ystyried yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gall y system gynllunio eu cael ar y meysydd hyn.

## Sut y cafodd effeithiau cymdeithasol a diwylliannol eu hasesu?

20. Mae'r fframwaith ACI, yr amcanion a'r cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn sicrhau y caiff effeithiau cymdeithasol a diwylliannol eu hasesu fel rhan o'r broses o ddatblygu'r FfDC. Y prif amcanion ACI (Atodiad A) sy'n sicrhau yr ymdrinnir â'r effeithiau hyn yw 1, 2, 3, 4, 5, 10, 11, 12, 13, 14 a 15. Mae'r rhain yn sicrhau bod yr FfDC yn ymdrin â chymunedau cydlynus, yn cynyddu mynediad i bawb, yn lleihau anghydraddoldebau ac yn hyrwyddo ac yn gwella diwylliant a'r amgylchedd hanesyddol.

## Sut y cafodd yr effeithiau ar blant a phobl ifanc eu hasesu?

21. Nododd gwaith cwmpasu'r ACI yr Erthyglau perthnasol yn CCUHP ynghyd â'r argymhellion a wnaed gan CCUHP yn 2016. Yna, cafodd y fframwaith ACI (Atodiad A) ei ddatblygu i gynnwys amcanion 1, 2, 3, 10, 11 a 12 sy'n ymdrin â'r Erthyglau a nodwyd a'r argymhellion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn llawn a'u bod yn llywio'r FfDC drafft wrth iddo ddatblygu.

22. Ymgysylltwyd â phlant a phobl ifanc drwy'r broses o ddatblygu'r FfDC, a bydd hynny'n parhau, er mwyn sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed ac er mwyn helpu gyda hyn lluniwyd fersiwn i bobl ifanc fel rhan o'r ymgynghoriad ar y FfDC drafft.

23. Mae'r fframwaith ACI a'r cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn cydnabod yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gall y system gynllunio eu cael ar blant a phobl ifanc. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau bod yr FfDC yn cael effaith gadarnhaol ar blant.

## Sut y cafodd yr effeithiau ar gymunedau gwledig eu hasesu?

24. Mae asesiad prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad wedi cael ei ymgorffori yn y fframwaith ACI. Mae hwn yn nodi ac yn cydnabod agweddau ar fywyd gwledig megis mynediad at wasanaethau, darpariaeth band eang a'r effeithiau economaidd mewn cymunedau gwledig.

25. Mae amcanion ACI (Atodiad A) 2, 3, 4, 5, 10, 11, 12, 13, 16 a 17 a'u cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn sicrhau yr ymdrinnir ag effeithiau ar gymunedau, busnesau gwledig ac ati wrth i'r FfDC gael ei ddatblygu, gan gydnabod effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

## Sut y cafodd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd eu hasesu?

26. Mae'r fframwaith ACI, yr amcanion a'r cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn sicrhau yr ymdrinnir ag effeithiau ar newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys ymaddasu, lliniaru a chydnerthedd yn yr FfDC, a chydnabod yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gall y system gynllunio eu cael ar y meysydd hyn.

27. Mae amcanion ACI (Atodiad A) 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 13, 16 a 17 yn sicrhau bod achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd yn cael eu nodi a'u hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r FfDC.

## Sut mae'r asesiadau hyn wedi llywio'r FfDC?

28. Mae'r asesiadau effaith yn cael eu cynnal yn iterus ar bob cam o'r broses o ddatblygu'r FfDC. Mae pob agwedd ar y FfDC wedi cael ei hasesu er mwyn sicrhau ei fod mor gynaliadwy â phosibl, gan ystyried effeithiau yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r adroddiadau asesu yn nodi sut mae canlyniadau'r asesiad wedi llywio'r FfDC. Mae pob cam o'r gwaith asesu hyd yma wedi'i grynhoi yng nghrynodeb annhechnegol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n cefnogi'r FfDC drafft[3].

## A yw'r dull integredig yn gwanhau'r asesiadau amgylcheddol/statudol?

29. Nid yw'r dull integredig yn gwanhau'r asesiadau. Mae'n sicrhau bod lefel yr asesiad yn cyrraedd lefel asesu gofynion statudol y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol.

## Monitro a Thystiolaeth

30. Caiff fframwaith monitro ei lunio a fydd yn llywio adolygiadau o'r FfDC yn y dyfodol. Mae hyn yn elfen hanfodol o gyflwyno datblygu cynaliadwy drwy fonitro effeithiau'r FfDC o ran yr effaith a ragwelir.

## Cynnwys ac ymgysylltu

31. Fel rhan o'r gwaith arfarnu hwn, mae swyddogion wedi cydgysylltu â'i gilydd yn Llywodraeth Cymru ar gam cynnar. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu grŵp mewnol gyda swyddogion hefyd yn cynnal arfarniadau tebyg er mwyn rhannu arferion da a thrafod syniadau a dulliau gweithredu a sut y bwriedir integreiddio asesiadau effaith â gwaith y swyddogion arweiniol asesu effaith.

32. Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau megis Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y gwaith hwn, sydd wedi cael profiad o Asesu'r Effaith ar Iechyd a chynlluniau datblygu. Mae'r Tîm Asesu Amgylcheddol yn Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gweithredu fel cyfaill beirniadol fel rhan o'r gwaith hwn er mwyn cynnig cyngor technegol ac arbenigol ar y broses hon. Cynhaliwyd gweithdy i randdeiliaid fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr adroddiad Cwmpasu drafft a roddodd gyfle i randdeiliaid drafod a helpu i lywio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

33. Mae'r gwaith hyd yma ar yr arfarniad o'r FfDC wedi nodi cyfleoedd i gydweithio, lleihau dyblygu gwaith a sicrhau dull cadarn o gynnal asesiadau, gyda'r potensial i rannu tystiolaeth a fframweithiau asesu ac ati. Byddwn yn parhau i ddysgu a rhannu arferion da wrth i'r broses hon ddatblygu a rhannu'r hyn a ddysgwyd.



[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

# Fframwaith ACI

| Amcanion yr ACI | Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd y FfDC yn...? | Nod llesiant |
|---|---|---|
| 1. Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes | • Annog a chefnogi cynnydd yn lefelau cyfranogiad a chyrhaeddiad mewn addysg i holl aelodau'r gymdeithas?<br>• Annog a chefnogi gwelliant i fynediad at gyfleoedd dysgu gydol oes?<br>• Annog a chefnogi gwelliant i ddarpariaeth cyfleusterau addysg a hyfforddiant trwy fentrau cynllunio defnydd tir? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| 2. Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru | • Cyfrannu at welliant i fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell/gwledig?<br>• Cyfrannu at ostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned gan gynnwys plant a phobl hŷn yn benodol?<br>• Cyfrannu at ffyrdd iach o fyw a hybu llesiant gan gynnwys cerdded a seiclo, trwy fentrau cynllunio defnydd tir?<br>• Cyfrannu at ostyngiad mewn lefelau tlodi plant a thlodi tanwydd?<br>• Cyfrannu at wella mynediad at fannau gwyrdd naturiol, bywyd gwyllt a mannau agored, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae a hamddena?<br>• Cyfrannu at gynnydd mewn seilwaith gwyrdd?<br>• Creu cyfleoedd i gymunedau addasu i'r risgiau i iechyd yn sgil newid yn yr hinsawdd? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| 3. Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd | • Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ar draws pob ystod oedran gweithio?<br>• Creu cyfleoedd i wella'r mynediad ffisegol at swyddi trwy fentrau cynllunio defnydd tir?<br>• Creu cyfleoedd i gynyddu nifer y bobl sy'n fodlon ar eu swyddi?<br>• Creu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad newydd a chynnydd yn nifer y gweithwyr medrus?<br>• Cefnogi cyfleoedd i ddatblygu dinas-ranbarthau? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Amcanion yr ACI | Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd y FfDC yn...? | Nod llesiant |
|---|---|---|
| 4. Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy | • Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy?<br>• Creu cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio yn yr economi ac annog sefydliad busnesau newydd a mewnfuddsoddiad?<br>• Creu cyfleoedd ar gyfer busnesau sy'n weithredol o ran arloesedd[4]?<br>• Creu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, a'i hyrwyddo, gan fanteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, diwylliannol, treftadaeth a hamdden?<br>• Creu cyfleoedd i wella'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig (gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, BBaChau, microfusnesau a datblygiad cysylltedd digidol)?<br>• Creu cyfleoedd i gynnal ac annog gweithgareddau trydydd sector?<br>• Creu cyfleoedd i fusnesau a seilwaith fod yn fwy cydnerth wrth wynebu'r risgiau yn sgil newid yn yr hinsawdd?<br>• Helpu i ddarparu seilwaith ffisegol i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, gan gynnwys seilwaith digidol a seilwaith teithio cynaliadwy? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 5. Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol | • Annog cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Cymru?<br>• Annog cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl ledled Cymru?<br>• Annog cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 6. Creu'r cyfleoedd lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni | • Creu cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ddatblygiadau presennol a newydd?<br>• Creu cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o safleoedd cynhyrchu pŵer, diwydiannau trwm a thrafnidiaeth?<br>• Creu cyfleoedd lle mae'n ofynnol i ddylunio cynaliadwy fod yn rhan annatod o ddatblygiad newydd?<br>• Creu cyfleoedd i leihau'r galw am ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni?<br>• Creu cyfleoedd i gynyddu'r potensial i greu ffynonellau ynni carbon isel neu ddi-garbon? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

4 Fel y diffinnir yn arolwg arloesedd cymunedol DBEIS

| Amcanion yr ACI | Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd y FfDC yn...? | Nod llesiant |
|---|---|---|
| 7. Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd | • Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd a chodi ymwybyddiaeth ohono?<br>• Annog pob datblygiad newydd i fod yn gydnerth yn wyneb newid yn yr hinsawdd?<br>• Hyrwyddo manteision seilwaith gwyrdd, sy'n gallu cynnwys rheoli perygl llifogydd cynaliadwy?<br>• Creu cyfleoedd i gymunedau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ar hyn o bryd i fod yn fwy cydnerth yn wyneb perygl llifogydd?<br>• Cyfeirio pob datblygiad newydd i ffwrdd o ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 8. Creu cyfleoedd i annog gwaith i ddiogelu a gwella ansawdd aer | • Creu cyfleoedd i wella a diogelu ansawdd aer?<br>• Lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd?<br>• Creu cyfleoedd lle gellir lleihau'r allyriadau posibl o gynhyrchu pŵer, trafnidiaeth a diwydiant trwm?<br>• Creu cyfleoedd i sicrhau nad yw ansawdd aer gwael yn effeithio'n anghymesur ar y cymunedau mwyaf agored i niwed?<br>• Creu cyfleoedd i sicrhau nad yw llygredd aer yn effeithio'n andwyol ar gynefinoedd sensitif ac adnoddau dŵr? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 9. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd a nifer y nodweddion a'r adnoddau dŵr | • Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd dŵr daear a dŵr wyneb a faint ohono sydd ar gael?<br>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella dyfrffyrdd yn rhan o rwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach?<br>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella dyfroedd arfordirol?<br>• Creu cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau dŵr yn gynaliadwy mewn lleoliadau cartref a diwydiannol?<br>• Creu cyfleoedd i leihau'r peryglon i adnoddau dŵr a'r seilwaith cyflenwi yn sgil newid yn yr hinsawdd?<br>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd nodweddion ac adnoddau dŵr a chefnogi prosesau integredig o wneud penderfyniadau yn yr amgylchedd morol?<br>• Cefnogi cydweithio a phrosesau integredig o wneud penderfyniadau ar draws cydgsylltiadau tir a môr ac ar draws ffiniau? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Amcanion yr ACI | Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd y FfDC yn…? | Nod llesiant |
|---|---|---|
| 10. Creu cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol i bob grŵp | • Creu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus integredig a chynhwysol sy'n diwallu anghenion pobl?<br>• Creu cyfleoedd i ddarparu seilwaith priffyrdd (gan gynnwys llwybrau cerdded a beicio) sy'n diwallu anghenion pobl, gan gynnwys defnydd busnes, masnachol a phersonol?<br>• Creu cyfleoedd i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy ac annog gostyngiad yn y ddibyniaeth ar y car preifat?<br>• Creu cyfleoedd i wella mynediad at gyfleusterau diwylliannol a hamdden?<br>• Creu cyfleoedd i ddarparu seilwaith cysylltedd digidol newydd a gwella'r seilwaith presennol?<br>• Creu cyfleoedd i gynnal a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig?<br>• Creu cyfleoedd i leihau'r peryglon yn sgil newid yn yr hinsawdd? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 11. Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | • Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb?<br>• Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydraddoldeb ar sail cefndir neu amgylchiadau?<br>• Creu cyfleoedd lle gellir lleihau anghydraddoldeb ar sail rhyw?<br>• Creu cyfleoedd lle gellir lleihau anghydraddoldeb ar sail oedran?<br>• Creu cyfleoedd lle gellir gwella anghydraddoldeb ar sail anabledd?<br>• Creu cyfleoedd i blant sydd ag unrhyw fath o anabledd fyw bywydau llawn ac annibynnol?<br>• Creu cyfleoedd i blant ddatblygu'n iach, a chael mynediad at ofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân?<br>• Creu cyfleoedd i sicrhau y gall plant fyw i safon sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol?<br>• Creu cyfleoedd i sicrhau bod gan blant fynediad at addysg?<br>• Creu cyfleoedd i sicrhau y gall plant ymlacio a chwarae, a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau?<br>• Creu cyfleoedd i ddatblygu cymunedau cryf a chydlynus?<br>• Creu cyfleoedd i leihau lefelau troseddu a'r ofn o droseddu?<br>• Creu cyfleoedd i wella nifer y bobl sy'n fodlon ar eu cymdogaethau fel lleoedd i fyw?<br>• Creu cyfleoedd i bobl hŷn ac anabl i gymryd rhan yn eu cymunedau a'r gymdeithas ehangach?<br>• Creu cyfleoeodd i leihau unigedd yn y gymdeithas?<br>• Creu cyfleoedd i ddylunio'r amgylchedd adeiledig mewn modd sy'n briodol i bawb? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |

| Amcanion yr ACI | Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd y FfDC yn...? | Nod llesiant |
|---|---|---|
| 12. Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy diogel o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd | • Creu cyfleoedd i ddarparu llety digonol i ddiwallu anghenion a nodwyd ym mhob ardal?<br>• Creu cyfleoedd i ddarparu tai o ansawdd da?<br>• Creu cyfleoedd i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael?<br>• Creu cyfleoedd lle gellir diwallu anghenion tai gwledig?<br>• Creu cyfleoedd lle mae lefelau digartrefedd yn gostwng?<br>• Creu cyfleoedd lle ceir gostyngiad yn nifer yr aelwydydd sydd mewn tlodi incwm neu amddifadedd sylweddol? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 13. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau, trefluniau a'n morweddau | • Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ardaloedd o gymeriad, unigrywedd, amrywiaeth ac ansawdd tirwedd a morwedd?<br>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella cymeriad ac ansawdd trefluniau, gan gynnwys trefluniau hanesyddol?<br>• Creu cyfleoedd i hyrwyddo dylunio sensitif, sy'n ymatebol i'r lle hwnnw, yn yr holl waith datblygu/ailddatblygu?<br>• Creu cyfleoedd i leihau llygredd sŵn a golau?<br>• Creu cyfleoedd i gynnal ardaloedd o dawelwch[5]?<br>• Creu cyfleoedd i annog lleoedd a rhwydweithiau sydd wedi eu cynllunio'n dda ac sy'n hygyrch i bobl a natur yn ein trefluniau?<br>• Creu cyfleoedd i dirweddau fod yn fwy cydnerth yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 14. Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u lleoliadau | • Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella asedau hanesyddol dynodedig a rhai nad ydynt wedi eu dynodi, fel y diffinnir yn yr eirfa?<br>• Creu cyfleoedd i hyrwyddo asedau hanesyddol, fel bod mwy o fynediad, dealltwriaeth a mwynhad o'r rhain i bawb?<br>• Creu cyfleoedd i wneud gwaith adfywio a arweinir gan dreftadaeth?<br>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella tirweddau hanesyddol Cymru? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

[5] Ffigur 7-1 yn Atodiad B o'r Adroddiad Cwmpasu, Tachwedd 2017

| Amcanion yr ACI | Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd y FfDC yn...? | Nod llesiant |
|---|---|---|
| 15. Creu cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru | • Creu cyfleoedd lle gall diwylliant Cymru ffynnu, trwy fentrau cynllunio defnydd tir?<br>• Creu cyfleoedd i gael mynediad at asedau a gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth Cymru?<br>• Cydnabod, diogelu, hybu a gwella diwylliant Cymru?<br>• Creu cyfleoedd i wneud gwaith adfywio a arweinir gan ddiwylliant? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 16. Creu cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth | • Creu cyfleoedd i sefydlu rhwydweithiau ecolegol mwy cydlynol a chydnerth ar dir er budd bywyd gwyllt a phobl, a gwella gwasanaethau ecosystemau?<br>• Creu cyfleoedd i gynyddu nifer ac amrywiaeth ecosystemau gweithredol?<br>• Creu cyfleoedd i gynyddu cydnerthedd ecosystemau a'u gallu i addasu?<br>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella safleoedd cadwraeth natur, cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig a rhai nad ydynt wedi'u dynodi?<br>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella ecosystemau morol?<br>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella ansawdd mannau gwyrdd naturiol?<br>• Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a hybu geoamrywiaeth er mwyn i bawb allu ei chyrraedd, ei deall a'i mwynhau yn fwy?<br>• Creu cyfleoedd i rywogaethau a chynefinoedd addasu i amodau hinsoddol sy'n newid? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 17. Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid | • Creu cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau eilaidd mewn gwaith adeiladu?<br>• Creu cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy o ffynonellau leol?<br>• Creu cyfleoedd i lanhau tir halogedig ac atal halogiad pellach?<br>• Creu cyfleoedd i gyfrannu at reoli tir fferm, coedwigoedd a chefn gwlad ehangach yn gynaliadwy?<br>• Creu cyfleoedd i leihau gwastraff peryglus?<br>• Creu cyfleoedd lle gall ansawdd pridd gael ei gynnal a/neu ei wella?<br>• Creu cyfleoedd i ddiogelu mawndir?<br>• Creu cyfleoedd i ddiogelu adnoddau mwynol a warchodir?<br>• Creu cyfleoedd i ddatblygu tir llwyd pan fo hynny'n gynaliadwy?<br>• Creu cyfleoedd i gynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio?<br>• Creu cyfleoedd i leihau cyfran a chyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi?<br>• Cynyddu cydnerthedd ecosystemau?<br>• Gwella darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur i wella ansawdd aer, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, rheoli perygl llifogydd, a gwella iechyd a llesiant? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |